

Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Dydd Mercher, 20 Mehefin 2012

9.30 – 15.30

Prifysgol Bangor

Yn bresennol:

Cyfarwyddwyr:

Yr Athro R. Merfyn Jones (Cadeirydd)
Gareth Pierce, Cyfarwyddwr Annibynnol (Is-Gadeirydd)
Jacqui Hare, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch
Yr Athro Aled Jones, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch
Geraint James, Cyfarwyddwr Annibynnol
Dr Hefin Jones, Cyfarwyddwr yn cynrychioli staff academaidd / Deon y Coleg
Yr Athro Hywel Thomas, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch
Wyn Thomas, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch
Ieuan Wyn, Cyfarwyddwr Annibynnol
Linda Wyn, Cyfarwyddwr Annibynnol
Luke Young, Cyfarwyddwr yn cynrychioli myfyrwyr

Swyddogion:

Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Dr Gwennan Schiavone, Ysgrifennydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Sylwedydd:

Dr Alison Allan, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW)

Hefyd yn bresennol:

Yr Athro Emeritws Gareth Roberts, Aelod o Bwyllgor Penodiadau'r Coleg

Ymddiheuriadau:

Yr Athro Iwan Davies, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch
Yr Athro Medwin Hughes, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch
Lisa Newbery, Addysg Uwch Cymru, Sylwedydd

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
1 Sylwadau Agoriadol ac Ymddiheuriadau	<p>1.1. Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod, a nodwyd gair o ddiolch i Brifysgol Bangor am letya'r cyfarfod. Nodwyd diolch yn benodol i Wyn Thomas am y trefniadau a wnaed ar gyfer derbyniad y noson cyn y cyfarfod yng nghwmni Is-Ganghellor y Brifysgol.</p> <p>1.2. Estynnwyd croeso arbennig i'r Athro Emeritws Gareth Roberts i'r cyfarfod fel aelod o Bwyllgor Penodiadau'r Coleg. Nodwyd y byddai aelodau'r Pwyllgor yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd yn achlysurol er mwyn datblygu dealltwriaeth lawn o natur cyfarfodydd y Bwrdd a'r hyn sy'n ddisgwyliedig gan Gyfarwyddwyr y Coleg.</p> <p>1.3. Nodwyd y derbyniwyd ymddiheuriadau gan yr Athro Iwan Davies (Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch), yr Athro Medwin Hughes (Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch), a Lisa Newbery (sylwedydd: Addysg Uwch Cymru).</p>		
2 Datganiadau o ddiddordeb	<p>2.1. Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb i'w nodi.</p>		
3 Derbyn ac ystyried cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Chwefror 2012	<p>3.1. Nodwyd un cywiriad i'r cofnod, sef yr angen i ddiwygio cofnod 13.1, er mwyn nodi fod un o'r cyfarwyddwyr wedi awgrymu y dylid "ystyried ychwanegu cymal i gyfansoddiad y prifysgolion, er mwyn nodi'r gofyniad i sefydliadau ymrwymo'n llawn i waith y Coleg".</p> <p>3.1.1. Mewn perthynas â pherthynas y Coleg gyda'r sefydliadau, nodwyd y byddai'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn mynychu cyd-gyfarfod Addysg Uwch Cymru a Chadeiryddion Addysg</p>	<p>Ysgrifennydd i gywiro'r cofnod.</p>	<p>Ar unwaith.</p>

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>Uwch Cymru ym Medi 2012.</p> <p>3.2. Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod.</p>		
<p>4 Materion yn codi</p>	<p>4.1. <u>Presenoldeb gweladwy'r Coleg yn y canghennau</u> – Nodwyd pryder swyddogion y Coleg ynghylch diffyg arwyddion pwrpasol hyrwyddo presenoldeb gweladwy canghennau'r Coleg yn y prifysgolion. Nodwyd fod y swyddogion wedi codi'r mater gydag uwch swyddogion yn y prifysgolion unigol, ond fod y cynnydd hyd yma – am ba bynnag reswm - yn araf ac yn annigonol. Tynnwyd sylw'r Bwrdd at y ffaith fod y mater penodol hwn wedi ennyn sylw anffafriol i'r Coleg</p> <p>Nodwyd fod Prifysgol Bangor wedi sicrhau presenoldeb gweladwy amlwg i'r gangen ar gampws y Brifysgol, a'u bod yn cynllunio i osod arwyddion a baneri ychwanegol. Nodwyd fod rhai prifysgolion eraill wedi gosod arwyddion ar swyddfeydd y canghennau, ond nid oedd unrhyw arwyddion parhaol amlwg y tu allan i adeiladau'r prifysgolion er mwyn sicrhau fod y canghennau'n weladwy i staff a myfyrwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol.</p> <p>4.1.1. Nododd y cyfarwyddwyr nad oedd y sefyllfa'n dderbyniol, a chytunwyd y dylid codi'r mater unwaith eto gydag uwch swyddogion y prifysgolion yn ogystal â chodi'r mater yn y cyfarfodydd a oedd i'w cynnal ym mis Gorffennaf gyda'r swyddogion cangen. Awgrymwyd y dylai'r Coleg hefyd ystyried llunio meini prawf cydymffurfiaeth ar y mater hwn, yn seiliedig ar arfer da.</p> <p>4.2. <u>Ieithoedd Modern</u> – Cafwyd diweddariad ar sefyllfa'r swydd mewn Almaeneg a drafodwyd yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd. Nodwyd fod y swydd wedi ei hysbysebu, ac yn dilyn y broses</p>	<p>Swyddogion y Coleg i godi'r mater gydag uwch swyddogion y prifysgolion, a'r swyddogion cangen.</p>	<p>Ar unwaith / Dechrau Tymor yr Hydref.</p>

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	gyfweld penodwyd darlithydd sydd bellach wedi ei lleoli ym Mhrifysgol Bangor.		
5 Gohebiaeth	5.1. Nid oedd unrhyw ohebiaeth i'w nodi.		
6 Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg	<p>6.1. Cafwyd adroddiad a diweddariad llafar ar faterion yn ymwneud â Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg.</p> <p>6.2. <u>Prosesau Penodi Cyfarwyddwyr</u> - Nodwyd y bydd tymor pedwar o Gyfarwyddwyr y Coleg yn dod i ben yng Nghyfarfod Blyneddol y Coleg yn 2013, ond gellir eu hail-ethol am un tymor pellach o dair blynedd. Cadarnhawyd enwau'r pedwar dan sylw, sef Dr Hefin Jones (Cyfarwyddwr yn cynrychioli staff academiaidd), yr Athro Medwin Hughes a'r Athro Hywel Thomas (Cyfarwyddwyr o'r Sector Addysg Uwch), a Gareth Pierce (Cyfarwyddwr Annibynnol).</p> <p>6.2.1. Nodwyd y byddai'r prosesau ar gyfer penodi Cyfarwyddwyr newydd neu ail-ethol y Cyfarwyddwyr presennol yn dilyn y drefn a ganlyn:</p> <p>(i) <u>Cyfarwyddwyr o'r Sector Addysg Uwch</u> – Bydd y Coleg yn gwahodd Addysg Uwch Cymru i gyflwyno dau enwebiad erbyn diwedd mis Tachwedd 2012.</p> <p>(ii) <u>Cyfarwyddwr Annibynnol</u> – Bydd y Coleg yn dilyn proses o hysbysebu'n gyhoeddus yn y wasg.</p> <p>(iii) <u>Cyfarwyddwr yn cynrychioli staff academiaidd</u> – Bydd y Coleg yn gwahodd enwebiadau am Gyfarwyddwr i gynrychioli staff academiaidd yn Nhymor yr Hydref. Nodwyd fod y Cyfarwyddwr presennol wedi nodi ei fod yn barod i gael ei ail-enwebu.</p> <p>6.2.2. Nodwyd y farn y dylid ail-edrych ar y broses ar gyfer penodi Cyfarwyddwr i gynrychioli staff academiaidd yn y dyfodol, gan ystyried hyd tymor y Cyfarwyddwr yn dilyn y penderfyniad i</p>	Pwyllgor Penodiadau i adolygu'r broses ar gyfer penodi Cyfarwyddwr i	2013/14

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>greu swyddogaeth y Deon. Nodwyd y byddai hwn yn fater i'w ystyried yn y dyfodol.</p> <p>6.2.2. Yn ychwanegol at safleoedd y pedwar Cyfarwyddwr a nodir uchod, nodwyd y byddai sedd y Cyfarwyddwr sy'n cynrychioli myfyrwyr hefyd yn dod yn wag ym mis Gorffennaf, gan fod tymor y Cyfarwyddwr presennol fel Llywydd Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru (UCMC) yn dod i ben bryd hynny. Nodwyd y byddai'r sefyllfa hon yn debygol o gael ei hail-adrodd yn flynyddol, ac felly fod angen prosesau gwahanol ar gyfer penodi i'r sedd hon. Nodwyd fod Cynhadledd UCMC wedi trafod y mater ym mis Mai, a chytunwyd y byddai Cadeirydd Pwyllgor Penodiadau'r Coleg yn cynnal cyfarfod gyda swyddogion UCMC ym mis Gorffennaf er mwyn trafod a chadarnhau'r broses ar gyfer enwebu / penodi cynrychiolydd i'r Bwrdd ym mlwyddyn academaidd 2012/13.</p>	gynrychioli staff academaidd.	
<p>7 Pwyllgor Archwilio (BC/12/02/07)</p>	<p>7.1. Cyflwynwyd yr eitem hon ar yr agenda gan Geraint James, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio.</p> <p>7.2. <u>Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2012</u> 7.2.1. Cyflwynwyd y cofnodion, ac fe'u derbyniwyd gan y Bwrdd. 7.2.2. Cafwyd diweddariad ar y pwyntiau gweithredu a nodwyd yn y cofnodion, a chadarnhawyd fod y pwyntiau oll wedi eu gweithredu'n llawn, ac ar amser. 7.2.3. Adroddwyd fod y Pwyllgor Archwilio wedi cyfethol aelod allanol newydd, sef Mererid Jones, Rheolwr Cyllid Mudiad Ysgolion Meithrin.</p> <p>7.3. <u>Adroddiad llafar ar y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2012</u> 7.3.1. Nodwyd fod y Pwyllgor wedi ystyried cyllideb y Coleg ar gyfer 2012/13, a'i fod yn argymhell ei gymeradwyo.</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>7.3.2.Nodwyd fod y Pwyllgor wedi derbyn cyfrifon chwarterol y Coleg, er gwybodaeth.</p> <p>7.3.3.Nodwyd fod y Pwyllgor wedi ystyried papur gydag amlinelliad o weithdrefnau awdurdodi archebion ar ran y Coleg, ac wedi cytuno ar brosesau a fydd yn sicrhau bod strwythur cadarn mewn lle yn y cyd-destun hwn.</p> <p><u>7.4. Adroddiad yr Archwilwyr Mewnol ar Lywodraethiant y Coleg</u></p> <p>7.4.1.Adroddwyd fod y Pwyllgor wedi ystyried yr adroddiad, a nodwyd fod yr adroddiad ar y cyfan yn gadarnhaol. Nodwyd fod lle i wella rhai agweddau, ond mai'r prif fater sydd angen rhoddi sylw buan iddo ydyw'r angen i ddarparu mwy o hyfforddiant i Gyfarwyddwyr y Coleg a threfniadau cynefino ar gyfer cyfarwyddwyr newydd.</p> <p><u>7.5 Awdit gweithdrefnau: Adroddiad yr Archwilwyr Mewnol</u></p> <p>7.5.1.Adroddwyd fod y Pwyllgor wedi ystyried yr adroddiad, a nodwyd fod yr adroddiad yn un cadarnhaol. Nodwyd yr angen i longyfarch swyddogion y Coleg am yr holl waith yr oeddent wedi ei gyflawni dros y flwyddyn ddiwethaf. Nodwyd fod y gwaith o sefydlu prosesau a systemau ariannol wedi ei gwblhau'n llwyddiannus ac yn effeithiol.</p> <p>7.5.2.Nodwyd fod swyddogion y Coleg wedi llunio ymateb llawn i argymhellion yr archwilwyr dan arweiniad Cofrestrydd y Coleg, ac mae'r archwilwyr bellach wedi dechrau ar y gwaith manwl o edrych ar drefniadau a phrosesau'r prifysgolion unigol mewn perthynas â'r grantiau a drosglwyddir iddynt gan y Coleg.</p> <p><u>7.6. Cofrestr Risgiau</u></p> <p>7.6.1.Nodwyd fod cofrestr ddrafft wedi ei chyflwyno yn y cyfarfod, ac fe'i trafodwyd yn llawn.</p> <p>7.7. Yn dilyn derbyn adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar y</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>materion hyn, cafwyd amlinelliad o'r camau gweithredu yr oedd swyddogion y Coleg yn bwriadu eu gosod mewn ymateb i'r adroddiadau a gyflwynwyd gan yr Archwilwyr Mewnol. Cyfeiriwyd yn benodol at y camau yr oedd swyddogion y Coleg yn bwriadu eu gweithredu mewn ymateb i'r Adroddiad ar Lywodraethiant y Coleg, ac yn benodol, nodwyd y canlynol:</p> <p>(i) Nodwyd y byddai swyddogion y Coleg yn rhoi cyflwyniad llawn yn y dyfodol ar gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr, staff y Coleg, a phwyllgorau'r Coleg [4.1];</p> <p>(ii) Nodwyd fod swyddogion y Coleg yn barod i ddarparu pa bynnag wybodaeth yr oedd y Cyfarwyddwyr yn dymuno ei dderbyn pe bai'n cael eglurder ynghylch pa wybodaeth yr oeddent yn dymuno ei gael [4.2];</p> <p>(iii) Nodwyd y byddai swyddogion y Coleg yn gwahodd Cadeirydd Pwyllgor Penodiadau'r Coleg i greu fframwaith ar gyfer gwerthuso perfformiad y Bwrdd [4.4]</p> <p>(iv) Nodwyd y byddai swyddogion y Coleg yn cynllunio hyfforddiant neu raglen gynefino i gyfarwyddwyr newydd yn y dyfodol ynghyd â chynnig sesiwn hyfforddiant i'r Cyfarwyddwyr presennol [4.1 a 4.4];</p> <p>(v) Nodwyd y bwriad i ddarparu papurau cyfarfodydd y Bwrdd ar ffurf electronig yn y dyfodol, er mwyn gallu dosbarthu'r papurau'r gynharach, oni bai bod gwrthwynebiad i hynny, neu gais am gopiâu papur [Atodiad 2]. Cytunodd y Cyfarwyddwyr i'r argymhelliad.</p> <p>7.8. Cafwyd adroddiad byr gan y Cofrestrydd ar y sefyllfa mewn perthynas â llunio fersiwn diwygiedig o Gofrestr Risg y Coleg, a dosbarthwyd copiâu o ddrafft diwygiedig a luniwyd yn dilyn trafodaeth y Pwyllgor Archwilio ar 19 Mehefin.</p> <p>7.8.1. Nodwyd y byddai'r Pwyllgor Archwilio yn cymryd cyfrifoldeb dros sicrhau fod y Coleg yn ymateb yn barhaus i'r risgiau a oedd wedi ei nodi, ac y byddai'r mater hwn yn eitem sefydlog ar agenda</p>	<p>Swyddogion y Coleg i weithredu yn unol â'r argymhellion.</p>	<p>Ar unwaith / 2012/13.</p>

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio.</p> <p>7.8.2. Gwahoddwyd sylwadau gan aelodau'r Bwrdd ar y Gofrestr ddrafft, a nodwyd y canlynol:</p> <p>(i) Awgrymwyd y dylid addasu ffurf y ddogfen, gan ddefnyddio côd lliw yn hytrach na'r labeli a ddefnyddiwyd yn y drafft cyfredol;</p> <p>(ii) Awgrymwyd y dylid ychwanegu risg mewn perthynas â materion staffio, er mwyn cydnabod y risg a fyddai'n wynebu'r Coleg pe bai staff allweddol yn gadael eu swyddi a'r perygl o fethu â phenodi unigolion cymwys i'r swyddi hynny.</p>	Cofrestrydd y Coleg i addasu'r Gofrestr yn unol â'r sylwadau a nodwyd.	Ar unwaith.
8 Pwyllgor Staffio	<p>8.1. Dosbarthwyd copïau o gofnodion cyfarfod y Pwyllgor Staffio a gynhaliwyd drwy fideo gynhadledd ar 14 Mawrth 2012, er gwybodaeth. Nodwyd fod y cofnodion hyn wedi eu derbyn a'u cymeradwyo yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 19 Mehefin.</p> <p>8.1.1. Cafwyd diweddariad ar y pwyntiau gweithredu a gytunwyd yn y cyfarfod ar 14 Mawrth, a nodwyd fod y penderfyniadau oll wedi eu gweithredu.</p> <p>8.1.2. Nodwyd fod y Coleg wedi hysbysebu swydd Uwch Reolwr Materion Corfforaethol ac Adnoddau Dynol, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor, ac adroddwyd fod Catherine Rees wedi ei phenodi i'r swydd honno.</p> <p>8.2. Cafwyd adroddiad llafar ar gyfarfod y Pwyllgor Staffio ar 19 Mehefin, a nodwyd y pwyntiau gweithredu a gytunwyd mewn perthynas â materion staffio.</p>		
9 Trafodaeth Strategol	<p>9.1. Cyflwynwyd yr eitem hon ar yr agenda gan y Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd</p> <p>9.2. Agorwyd yr eitem drwy nodi'r angen i ystyried y ffactorau allweddol allanol sy'n effeithio ar waith y Coleg, ac ar allu'r Coleg</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>i gyflawni'i amcanion. Nodwyd fod tri mater penodol i'w ystyried sef:</p> <p>(i) Effaith y newidiadau mewn perthynas â ffioedd myfyrwyr;</p> <p>(ii) Effaith y toriadau yn y niferoedd o fyfyrwyr sy'n cael eu cyllido;</p> <p>(iii) Effaith ail-drefnu mewnol o fewn prifysgolion mewn perthynas â darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac ail-strwythuro adrannau academiaidd.</p> <p>9.3. Cafwyd trafodaeth ar y ffactorau dan sylw, a nodwyd yr angen i gadw llygad ar effaith y materion hyn ar waith y Coleg.</p> <p>9.3.1. Nodwyd yr anawsterau sy'n codi mewn perthynas â'r ffactorau hyn gan eu bod y tu hwnt i allu'r Coleg i'w rheoli.</p> <p>9.3.2. Nodwyd y farn ei bod yn anodd iawn i ragdybio effaith y newidiadau hyn, a'i bod yn anodd barnu pa mor negyddol fyddai effaith newidiadau megis ail-drefnu mewnol o fewn y prifysgolion ar waith y Coleg.</p> <p>9.3.3. Nodwyd fod y perygl o gollu niferoedd cynyddol o fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg ym mhrifysgolion Cymru, yn wyneb cynnydd yn y niferoedd sy'n dewis astudio mewn prifysgolion y tu hwnt i Gymru yn bryder mawr, a byddai angen ystyried sut i wynebu'r her honno. Awgrymwyd y dylid ceisio cynyddu ymwneud y Coleg â myfyrwyr cyfrwng Cymraeg sy'n astudio y tu allan i Gymru, er mwyn denu myfyrwyr yn ôl i Gymru i astudio ar lefel ôl-radd.</p> <p>9.4. Yn dilyn y drafodaeth, cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn gofyn am gyfarfod gyda'r Gweinidog Addysg a Sgiliau er mwyn gwyntyllu materion a drafodwyd yn y cyfarfod, gan gynnwys yr angen i roddi ystyriaeth lawn i'r Gymraeg wrth wneud unrhyw benderfyniadau polisi mewn perthynas â'r sector addysg uwch</p>	<p>Y Coleg i ystyried sut y gellir cryfhau ei ymwneud â myfyrwyr cyfrwng Cymraeg sy'n astudio y tu allan i Gymru, ac yn benodol felly er mwyn hyrwyddo cyfleoedd astudio cyfrwng Cymraeg ar lefel ôl-radd/</p> <p>Cadeirydd i anfon llythyr at y Gweinidog Addysg a Sgiliau</p> <p>Cadeirydd / Prif</p>	<p>2012/13</p> <p>Ar unwaith.</p>

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>yn y dyfodol. Cytunwyd y byddai Cadeirydd a'r Prif Weithredwr hefyd yn cynnal trafodaeth gydag AUC ynghylch sicrhau cynrychiolaeth o'r Coleg ar bwyllgorau AUC er mwyn gallu cyfranogi yn y trafodaethau a chyfrannu at benderfyniadau.</p> <p>9.5. Yn sgil y drafodaeth, nodwyd yr angen i sicrhau fod holl Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn clywed y neges hon, ac yn sylweddoli effaith posibl penderfyniadau polisi o'r fath.</p> <p>9.6. Cytunwyd ar yr angen i godi ymwybyddiaeth ehangach o waith y Coleg ymysg gwleidyddion, a'r cyhoedd yn gyffredinol. Yn y cyd-destun hwn, nodwyd ei bod yn fwriad i gyhoeddi Cynllun Academaidd y Coleg yng Nghaerdydd ym mis Medi, gyda'r bwriad o sicrhau y bydd modd ennyn cyhoeddusrwydd i waith y Coleg, a'r hyn sydd wedi ei gyflawni yn ystod blwyddyn gyntaf y Coleg.</p>	Weithredwr i gynnal trafodaeth gyda AUC.	Tymor yr Hydref 2012/13
10 I dderbyn adroddiad llafar gan y Deon	<p>10.1. Cafwyd adroddiad llafar gan y Deon ar ei waith yn y swyddogaeth honno dros y misoedd diwethaf. Nododd ei fod yn treulio diwrnod y mis yn swyddfa ganolog y Coleg yng Nghaerfyrddin. Nododd ei fod yn gweld fod y pwysau gwaith ar swyddogion yn drwm ac yn sylweddol iawn gyda'r swyddogion yn ymgymryd ag ystod eang iawn o gyfrifoldebau, ac y byddai angen i'r Bwrdd gadw golwg ar y sefyllfa.</p> <p>10.2. Cyflwynodd y Deon adroddiad byr ar brif drafodaethau'r Bwrdd Academaidd yn y cyfarfod diwethaf.</p> <p>10.2.1. Nodwyd fod un mater penodol yr oedd y Bwrdd Academaidd yn dymuno ei gyfeirio at ystyriaeth y Cyfarwyddwyr, sef y cynnig y dylid amrywio rheoliadau Cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil Ôl-raddedig y Coleg, er mwyn cydnabod yr angen i ddarparu cyllid ychwanegol i gefnogi ymchwil myfyrwyr ym maes y gwyddorau gan fod costau ychwanegol yn aml</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>ynghlwm ag ymchwil yn y meysydd hyn.</p> <p>10.2.2. Cafwyd trafodaeth ar y mater, a chytunwyd y byddai'r Coleg yn penderfynu fesul achos pa un ai a fyddai'n briodol i ddarparu cyllid ychwanegol i gefnogi ysgoloriaethau ymchwil PhD mewn meysydd penodol.</p> <p>10.3. Cafwyd adroddiad byr ar weithrediad Cynllun Staffio.</p> <p>10.3.1. Nodwyd y materion oedd yn codi yng nghyd-destun dyfarniadau'r Cynllun Staffio yn 2011/12, ac yn benodol, y swyddi a oedd wedi achosi pryder i'r Coleg gan arwain at weithredu gan swyddogion y Coleg.</p> <p>10.3.2. Cyflwynwyd diweddariad ar y prosesau penodi oedd mewn lle yn sgil dyfarniadau'r Cynllun Staffio ar gyfer swyddi i ddechrau yn 2012/13 a nodwyd fod nifer o benodiadau eisoes wedi eu gwneud gan y prifysgolion perthnasol. Mynegwyd pryder gan y swyddogion am arafwch rhai prifysgolion yn hysbysebu swyddi a ddyfarnwyd drwy'r Cynllun Staffio a chytunwyd y byddai'r amserlen a'r amodau yn cael eu hadolygu ar gyfer 2013/14.</p>	Swyddogion y Coleg i weithredu'n unol â'r argymhelliad.	2012/13
<p>11 I dderbyn ac ystyried fersiwn drafft terfynol Cynllun Academaidd y Coleg (BC/12/02/11)</p>	<p>11.1. Cafwyd cyflwyniad i'r drafft terfynol o'r Cynllun Academaidd gan y Deon. Nodwyd diolch i aelodau Bwrdd y Cyfarwyddwyr, ac aelodau'r Bwrdd Academaidd am eu cyfraniad i ddatblygiad y cynllun, a nodwyd diolch i'r Cofrestrydd yn benodol am ei holl waith wrth ddatblygu'r Cynllun. Nodwyd fod y Cynllun yn gosod fframwaith cenedlaethol ar gyfer darpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg, a'r nŵd wrth ddatblygu'r cynllun ydoedd sicrhau fod y seiliau yr oedd y Coleg yn eu gosod yn gadarn ac yn gynaliadwy.</p> <p>11.2. Cafwyd cyflwyniad i gynnwys y cynllun fesul adran gan y Cofrestrydd, a gwahoddwyd sylwadau gan aelodau'r Bwrdd, gan nodi'r newidiadau a wnaed ers cyflwyno'r drafft diwethaf yn sgil proses ymgynghori ffurfiol yn Nhymor y Gwanwyn.</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>11.2.1. Trafodwyd yr adrannau yn eu tro, ac yn sgil hynny cyflwynwyd cyfres o welliannau a newidiadau pellach gan aelodau'r Bwrdd. Cytunwyd y byddai'r Cynllun yn cael ei ddiwygio i gynnwys y newidiadau hyn.</p> <p>11.2.2. Cadarnhawyd y byddai'r Coleg yn diwygio'r cynllun yn unol â sylwadau'r Bwrdd, ac yna'n bwrw ymlaen â'r gwaith o drefnu'r lansiad swyddogol yng Nghaerdydd ym mis Medi.</p> <p>11.3. Wrth gloi'r eitem, amlinellwyd y camau nesaf mewn perthynas â'r broses gynllunio academiaidd, sef dechrau ystyried pynciau unigol. Byddai'r gwaith hwn yn digwydd mewn ymgynghoriad â'r prifysgolion a byddai cylchlythyr yn cael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf.</p>	<p>Cofrestrydd y Coleg i ddiwygio'r Cynllun Academiaidd drafft yn unol â sylwadau'r Bwrdd cyn ei gyhoeddi ym mis Medi.</p>	<p>Ar unwaith.</p>
<p>12 I dderbyn ac ystyried papur ar dargedau</p>	<p>12.1. Cyflwynwyd y papur gan Gofrestrydd y Coleg.</p> <p>12.2. Nodwyd fod Llywodraeth Cymru wedi gosod targed i sicrhau fod 5,600 o fyfyrwyr mewn prifysgolion yng Nghymru yn astudio rhywfaint drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2012/13. Nodwyd fod y targed hwn wedi ei osod cyn i'r Coleg gael ei sefydlu. Pwysleisiwyd mai targed i'r sector ac nid i'r Coleg yw hwn, ond bydd yn ofynnol i'r Coleg anelu at sicrhau fod y sector yn cyrraedd y targed.</p> <p>12.3. Nodwyd y bydd y Coleg, yn y dyfodol, yn gosod targedau penodol fesul maes a lleoliad astudio, gan godi'r trothwy i gofnodi myfyrwyr sy'n astudio o leiaf traean o'u cwrs gradd drwy gyfrwng y Gymraeg. Nodwyd y bydd y Coleg hefyd yn dwyn pwysau ar y Llywodraeth ac ar CCAUC i sicrhau fod unrhyw dargedau cenedlaethol a bennir yn y dyfodol yn cael eu trafod</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>gyda'r Coleg.</p> <p>12.4.Cyflwynwyd y data presennol o fyfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y prifysgolion unigol, a chyflwynwyd y targedau a oedd wedi eu cynnig gan swyddogion y Coleg i'w gosod i'r sefydliadau er mwyn cyrraedd targed y Llywodraeth.</p> <p>12.4.1.Nodwyd fod swyddogion y Coleg yn dymuno nodi eu pryderon am y data swyddogol gan fod anghysondebau yn parhau o ran y dulliau y mae'r sefydliadau yn eu defnyddio wrth gywain a chyflwyno eu data. Nodwyd, fodd bynnag, mai dyma'r data swyddogol.</p> <p>12.5.Gwahoddwyd y Bwrdd i ystyried y targedau a awgrymwyd gan swyddogion y Coleg, ac i ystyried yr argymhelliad i ddynodi cronfa o £15,000 er mwyn cefnogi datblygiadau a fyddai'n arwain ar ddatblygu darpariaeth achrededig mewn pynciau newydd yn y prifysgolion unigol er mwyn denu mwy o fyfyrwyr i astudio rhywfaint o'u cwrs gradd drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>12.5.1. Cymeradwywyd yr argymhellion.</p>	Swyddogion y Coleg i weithredu'n unol â'r argymhellion.	Ar unwaith.
<p>13 I dderbyn argymhellion ar ddyraniadau o Gronfa Datblygiadau Strategol y Coleg (BC/12/02/13)</p>	<p>13.1. Cyflwynwyd y papur gan Ysgrifennydd y Coleg, ac amlinellwyd y broses o ystyried y ceisiadau a gyflwynwyd i'r Coleg am gyllid o'r Gronfa.</p> <p>13.2. Cyflwynwyd yr argymhellion ar ddyraniadau o'r Gronfa, a gwahoddwyd y Cyfarwyddwyr i ystyried yr argymhellion a gyflwynwyd yn Atodiad 13/2 ac yn Atodiad 13/3.</p> <p>13.2.1.Cymeradwywyd yr argymhellion yn ddiamod.</p> <p>13.3. Gwahoddwyd y Cyfarwyddwyr i ystyried yr argymhelliad yng nghymal 11 yn y papur i ddynodi prosiect strategol ym maes y</p>	Swyddogion y Coleg i weithredu'n unol â'r argymhellion.	Ar unwaith.

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>Diwydiannau Creadigol.</p> <p>13.3.1.Cymeradwywyd yr argymhelliad yn ddiamod.</p>		
<p>14 I dderbyn argymhellion ar ddyraniadau Grantiau Bach y Coleg (BC/12/02/14)</p>	<p>14. Cyflwynwyd y papur gan Ysgrifennydd y Coleg, ac amlinellwyd y broses o ystyried y ceisiadau a gyflwynwyd i'r Coleg am grantiau bach o'r Gronfa Datblygiadau Strategol.</p> <p>14.1.Cyflwynwyd yr argymhellion a nodwyd yn Atodiadau 14/1, 14/2, ac 14/3 a gwahoddwyd y Bwrdd i ystyried yr argymhellion.</p> <p>14.1.1.Cymeradwywyd yr argymhellion yn ddi-amod.</p>	<p>Swyddogion y Coleg i weithredu'n unol â'r argymhellion.</p>	<p>Ar unwaith.</p>
<p>15 Adroddiad Blynyddol y Coleg, Ebrill-Gorffennaf 2011</p>	<p>15.1.Nodwyd fod adroddiad blynyddol cyntaf y Coleg wedi ei baratoi, gan nodi mai adroddiad ar gyfnod o bedwar mis yw hwn, sef Ebrill hyd Orffennaf 2011. Nodwyd mai'r bwriad ydyw cyhoeddi'r adroddiad hwn ar ffurf electronig yn unig.</p> <p>15.2.Dosbarthwyd copiau o'r adroddiad drafft, a gwahoddwyd aelodau'r Bwrdd i gyflwyno sylwadau ar y ddogfen i'r Prif Weithredwr cyn diwedd mis Mehefin.</p> <p>15.3. Nodwyd, er gwybodaeth, ei bod yn fwriad i baratoi'r adroddiad blynyddol ar gyfer 2011/12 yn y misoedd nesaf fel bod modd ei gymeradwyo a'i dderbyn yn llawn yng Nghyfarfod Blynyddol Llys y Coleg yn Chwefror 2013.</p> <p>15.4.Nodwyd un cywiriad i'r cofnod o bresenoldeb Cyfarwyddwyr yng nghyfarfodydd y Bwrdd yn y cyfnod rhwng Ebrill a Gorffennaf 2011.</p>	<p>Cyfarwyddwyr i gyflwyno sylwadau i'r Prif Weithredwr.</p> <p>Swyddogion y Coleg i gywiro'r cofnod.</p>	<p>30 Mehefin 2012.</p> <p>Ar unwaith.</p>
<p>16 Cynllun Gweithredu 2011/12 (BC/12/02/16)</p>	<p>16.1. Cyflwynwyd diweddariad ar Gynllun Gweithredu'r Coleg ar gyfer 2011/12 gan y Prif Weithredwr.</p> <p>16.2. Nid oedd unrhyw faterion i'w nodi.</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
17 I dderbyn, er gwybodaeth, llythyr cylch gorchwyl y Coleg oddi wrth y Cyngor Cyllido Addysg Uwch	<p>17.1. Nodwyd mai ar 19 Mehefin y derbyniwyd y llythyr, ac nad oedd modd i'r swyddogion felly ddsbarthu'r llythyr gyda phapurau'r cyfarfod.</p> <p>17.2. Dosbarthwyd copïau papur o'r llythyr yn y cyfarfod, er gwybodaeth, a chyfeiriwyd at gymalau penodol yn y llythyr y byddai angen i'r Coleg eu hystyried ymhellach a'u hymgorffori yng Nghynllun Gweithredu'r Coleg ar gyfer 2012/13.</p>		
18 I dderbyn ac ystyried Cynllun Gweithredu Drafft y Coleg ar gyfer 2012/13	<p>18.1. Yn unol â'r hyn a nodwyd o dan eitem 17, nodwyd fod y cynllun a oedd gerbron wedi ei lunio cyn i'r Coleg dderbyn ei lythyr grant gan CCAUC ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Awst 2012 a 31 Gorffennaf 2013, gan nad oedd y llythyr wedi dod i law tan 19 Mehefin. Yn absenoldeb y llythyr grant, lluniwyd y cynllun yn seiliedig ar Gynllun Strategol y Coleg. Nodwyd y byddai swyddogion y Coleg yn diwygio'r Cynllun yn dilyn y cyfarfod, er mwyn ymgorffori'r elfennau ychwanegol sydd wedi eu nodi yn y llythyr grant.</p> <p>18.2. Gwahoddwyd aelodau'r Bwrdd i gyflwyno unrhyw sylwadau ar y Cynllun Gweithredu Drafft i'r Prif Weithredwr, cyn 16 Gorffennaf.</p>	<p>Cyfarwyddwyr i gyflwyno sylwadau i'r Prif Weithredwr.</p>	<p>Cyn 16 Gorffennaf.</p>
19 I dderbyn ac ystyried Cyllideb Ddrafft y Coleg ar gyfer 2012/13	<p>19.1 Yn unol â'r hyn a nodwyd o dan eitem 7, nodwyd fod y Gyllideb Ddrafft wedi ei hystyried gan y Pwyllgor Archwilio ar 19 Mehefin.</p> <p>19.2. Gofynnwyd am y sefyllfa mewn perthynas ag amrywio'r symiau sydd wedi eu pennu ar gyfer agweddau unigol o'r gwaith, a chadarnhawyd y byddai modd amrywio'r symiau hyn er mwyn adlewyrchu unrhyw benderfyniadau a wneir yn y cyfnod dan sylw.</p> <p>19.2.1. Yn y cyd-destun hwn, cadarnhawyd y byddai modd amrywio'r swm sydd wedi ei osod yn y gyllideb ar gyfer Ysgoloriaethau</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>Ymchwil Ôl-raddedig, er mwyn adlewyrchu'r penderfyniad a wnaed o dan eitem 10 i ddarparu cyllid ychwanegol fel rhan o ysgoloriaeth ymchwil unigol pe bai angen gwneud hynny, megis ym maes y gwyddorau.</p> <p>19.3. Cymeradwywyd y Gyllideb Ddrafft yn ddi-amod.</p>		
<p>20 Rhaglen hyfforddiant ar gyfer aelodau Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg</p>	<p>20.1. Yn unol â'r sylwadau a gyflwynwyd yn adroddiad yr Archwilwyr Mewnol ar lywodraethiant y Coleg, gofynnwyd i'r aelodau pa fath o hyfforddiant ychwanegol y byddent yn dymuno ei dderbyn er mwyn cyflawni eu swyddogaeth fel Cyfarwyddwyr.</p> <p>20.2. Cytunwyd y byddai swyddogion y Coleg, yn y man cyntaf, yn trefnu sesiwn hyfforddiant i'r Cyfarwyddwyr yn Nhymor yr Hydref a fyddai'n cynnwys cyflwyniad ar agweddau gwahanol o waith y Coleg.</p>	<p>Swyddogion y Coleg i drefnu sesiwn hyfforddiant i'r Cyfarwyddwyr.</p>	<p>Tymor yr Hydref.</p>
<p>21 Dyfodol Rhwydwaith Fideo Cymru</p>	<p>21.1. Nodwyd y sefyllfa bresennol mewn perthynas â dyfodol Rhwydwaith Fideo Cymru, a nodwyd y gallai unrhyw benderfyniadau a wneir yn y dyfodol effeithio ar waith y Coleg.</p> <p>21.2. Dosbarthwyd copïau o'r llythyr a anfonwyd at Lywodraeth Cymru gan Gadeirydd y Coleg ar 18 Mehefin er mwyn nodi pryder y Coleg yn wyneb yr ansicrwydd ynghylch dyfodol y Rhwydwaith.</p> <p>21.2.1 Yn wyneb y sefyllfa bresennol, a'r ansicrwydd ynghylch dyfodol y Rhwydwaith, gofynnwyd i swyddogion y Coleg baratoi rhestr o'r modiwlau a gefnogir gan y Coleg sy'n cael eu haddysgu drwy ddefnyddio'r rhwydwaith fideo yn 2012/13 er mwyn creu darlun clir o'r effaith tebygol ar waith y Coleg pe bai'r ansicrwydd ynghylch dyfodol y rhwydwaith yn cael ei wireddu.</p>	<p>Swyddogion y Coleg i lunio rhestr o'r modiwlau a gefnogir gan y Coleg sy'n cael eu haddysgu drwy ddefnyddio'r rhwydwaith fideo yn 2012/13.</p>	<p>Tymor yr Hydref.</p>

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
22 Adolygiad o'r Cynllun Ysgoloriaethau Israddedig (BC/12/02/22)	<p>22.1. Cyflwynwyd y papur gan y Cofrestrydd, a nodwyd cynlluniau'r Coleg mewn perthynas ag adolygu'r Cynllun Ysgoloriaethau Israddedig, er gwybodaeth.</p> <p>22.2. Nodwyd cynnwys y papur, a chadarnhawyd nad oedd aelodau'r Bwrdd yn dymuno nodi unrhyw faterion eraill i'w hystyried.</p>		
23 Ymgyrch Recriwtio (BC/12/02/23)	<p>23.1. Wrth gyflwyno'r eitem, nododd y Prif Weithredwr ei ddiolch i Ieuan Wyn (IW) am gadeirio'r pwyllgor newydd a sefydlwyd er mwyn ystyried materion yn gysylltiedig â dilyniant a materion eraill yn deillio o Strategaeth Addysg y Llywodraeth, yn unol â phenderfyniad y Bwrdd yn ei gyfarfod ar 29 Chwefror.</p> <p>23.2. Cyflwynwyd y papur gan IW, ac amlinellwyd yr argymhellion a nodwyd yn y papur gan nodi mor allweddol ydoedd y gwaith hwn er mwyn galluogi'r Coleg i wireddu ei nodau a'i amcanion.</p> <p>23.3. Nodwyd bwriad y Coleg i ddatblygu prospectws ar gyfer y myfyrwyr a fydd yn mynd i'r brifysgol ac yn ymuno â'r Coleg ym mlwyddyn academiaidd 2014/15. Nodwyd mai'r nôd yw cyhoeddi'r prospectws ym Mai 2013, a lansio ymgyrch recriwtio i gyd-fynd a'r prospectws gyda'r amcan o wneud cyfraniad allweddol tuag at gyrraedd y targedau a fydd wedi eu gosod a'u cytuno ar gyfer y cyfnod hyd at 2017/18 a thu hwnt. Nodwyd prif amcanion yr ymgyrch, a chadarnhawyd y byddai cynllun gweithredu drafft ar gyfer yr ymgyrch yn cael ei gyflwyno i ystyriaeth y Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd.</p> <p>23.4. Ystyriwyd yr argymhellion a nodwyd yn y papur, a chymeradwyodd y Bwrdd y cynlluniau arfaethedig. Cytunodd y Bwrdd i ddirprwyo'r cyfrifoldeb dros ystyried a datblygu cynllun manwl ar gyfer yr ymgyrch i'r Grŵp Polisi Addysg a Dilyniant a</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	swyddogion y Coleg.		
24 Cadarnhau trefniadau Cyfarfod Blynyddol 2013	<p>24.1. Cadarnhawyd y cynhelir Cyfarfod Blynyddol Llys y Coleg yn 2013 yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar 26 Chwefror 2013. Nodwyd y bydd Cynulliad Blynyddol y Coleg a'r seremoni anrhydeddu yn cael eu cynnal gyda'r hwyr yn Neuadd Fawr, Prifysgol Aberystwyth.</p> <p>24.2. Nodwyd y bwriad i gyflwyno ymgyrch recriwtio'r Coleg yng nghyfarfod Llys y Coleg.</p> <p>24.3. Adroddwyd, er gwybodaeth, fod swyddogion y Coleg yn y broses o gyfarfod aelodau rhanddeiliadol y Coleg yn eu tro.</p>		
25 Unrhyw Fater Arall	<p>25.1. Nodwyd, er gwybodaeth, bod Cronfa Genedlaethol William Salesbury wedi ei sefydlu ar ffurf elusen annibynnol i gefnogi myfyrwyr yn astudio o dan nawdd y Coleg. Adroddwyd mai gweledigaeth Dr Meredydd Evans oedd sefydlu'r Gronfa a bod y Parchedig John Gwilym Jones wedi ei benodi'n gadeirydd yr ymddiriedolwyr.</p> <p>25.2. Cytunwyd i roi rhodd o £5,000 i'r Gronfa gan y Coleg, er mwyn cefnogi'r gwaith o sefydlu a hyrwyddo'r Gronfa.</p>	Y Coleg i gyflwyno rhodd o £5,000 i'r Gronfa.	Gorffennaf 2012.
26 Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf	<p>26.1. Wrth gloi'r cyfarfod nodwyd gair o ddiolch i'r cyfieithydd.</p> <p>26.2. Nodwyd gair o ddiolch i Luke Young am ei gyfraniad yn ystod ei dymor fel Cyfarwyddwr yn cynrychioli myfyrwyr, a dymunwyd yn dda iddo i'r dyfodol.</p> <p>26.3. Nodwyd y cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd ar 28 Tachwedd 2012, naill ai yng Nghaerfyrddin neu yng Nghaerdydd.</p>		

Derbyniwyd a chymeradwywyd y cofnodion yn ffurfiol yng nghyfarfod Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a gynhaliwyd ddydd Mercher, 28 Tachwedd ym Mhrifysgol Caerdydd.

Llofnod: M. Merfyn Jones
(Yr Athro R. Merfyn Jones, Cadeirydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol)

Dyddiad: 28 Tachwedd 2012